Diweddariadaur wythnos o WCVA

15 Gorffennaf 2019

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Os oes gennych ddiddordeb mewn datblygu prosiect i wella'ch amgylchedd lleol mae'r dyddiad cau i ymgeisio i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn prysur ddynesu! Mae grantiau rhwng £5,000 a £49,999 ar gael i brosiectau sy'n cyd-fynd â'r meini prawf. Mae'r rownd bresennol yn cau ar 21 Gorffennaf 2019.

Mae WCVA wedi ymateb i'r Adolygiad diweddar o Bartneriaethau Strategol. Fe fynegon ni ein pryderon i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â diffyg eglurder o ran sut mae partneriaethau'n cydweithio i ddiwallu anghenion pobl. Fe wnaethom hefyd argymell nifer o gamau yr ydym yn credu y dylai partneriaethau a Llywodraeth Cymru eu cymryd.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Cyllid diweddaraf

Mannau addoli: cynllun ariannu diogelwch

Mae cyllid ar gael ar gyfer mesurau diogelwch mewn mannau addoli a chanolfannau cymunedol cysylltiedig â ffydd sy'n agored i droseddau casineb.

Cronfa Cymunedau Cydlynus

Nod y gronfa yw datgloi'r sgiliau a'r gallu o fewn Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol drwy ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol drwy grantiau a hyfforddiant.

Angen cyllid am brosiect i hybu'r amgylchedd?

Mae'r rownd gyntaf o'r Gronfa Treth Tirlenwi ar agor tan 21 Gorffennaf 2019.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Gweminar: Cyflwyniad i Fesur Effaith

Dewch i gael gwybod mwy am sut i lunio fframwaith mesur effaith i'ch mudiad chi.

18 Gorffennaf 2019, 2-3pm

Polisi a prosiectau

'Aneglur' sut mae partneriaethau strategol yn cydweithio

Mae WCVA wedi ymateb i Adolygiad diweddar Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o Bartneriaethau Strategol.

Arweiniad fideo – Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector

Cynhaliodd WCVA weminar ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn cynnig arweiniad ar ymgeisio am gyllid o dan Gam Dau'r Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector.

Sut all mudiadau trydydd sector gael at gymorth dadansoddi?

Tair menter i wella ffordd eich mudiad o ddadansoddi data.